Dafydd Elis-Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

Llywodraeth Cymru

15 Mawrth 2019

Annwyl Dafydd,

**Cymorth ariannol ar gyfer radio cymunedol**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi cael gohebiaeth gan ddarparwyr radio cymunedol ynghylch eu pryderon bod y newidiadau i ofynion Ofcom ynglŷn â chynnwys a gynhyrchir yn lleol wedi effeithio'n andwyol ar allbwn newyddion yng Nghymru.

Er enghraifft, mae Mike Lewis, Cyfarwyddwr Gorsaf Radio Tircoed, wedi ysgrifennu ataf i ddweud:

> The announcement this week by the major commercial radio networks that locally produced shows such as those provided by Swansea Sound and The Wave will now have their local news element cutback to a bare minimum. [means] Local presenters will lose their jobs, editors and technicians will also suffer…
>
> The Bauer Media Group that owns both The Wave and Swansea sound have no interest in the non-commercial benefits of providing these stations with any real local content. Surely this is not in line with Welsh Assembly policy.

Rydym yn rhannu eu pryderon, ac oherwydd bod y pwnc hwn yn un yr ydym wedi ei ystyried yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gobeithiaf y byddwch yn maddau hyd y llythyr hwn.

**Sylwadau'r pwyllgor i Ofcom**

Fel Pwyllgor, fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar eu canllawiau ddwywaith yn 2018. Yn ein ail lythyr fe ysgrifennom:

> … reducing the number of approved areas is in our view likely to have a detrimental impact on some communities and lead to a greater centralisation of production. We are particularly concerned that if production moves out of rural, Welsh-speaking areas it could have a detrimental impact on the volume of Welsh language content: a matter of considerable concern for Welsh-speaking audiences who are already inadequately served by the commercial radio market.

> … We continue to have concerns that as well as the economic and social impact of job losses, removing the boundary between South East and South West Wales could potentially reduce the extent to which radio stations are embedded in – and reflect – the areas to which they broadcast, leading to a further homogenisation of content.

Gwn hefyd ichi ymateb i Ofcom gyda phryderon tebyg, gan bwysleisio y byddai effaith llacio'r rheolau ar gynhyrchu deunydd lleol yn cael effaith fwy ar Gymru o ystyried 'gwendid y cyfryngau argraffedig yng Nghymru a'r diffyg sylw a gaiff materion Cymreig ym mhapurau newydd y DU'.

A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw sylwadau yr ydych wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU neu Ofcom ers cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gynnwys lleol?

**Arian ar gyfer radio cymunedol**

Y llynedd cyhoeddwyd adroddiad ar ein hymchwiliad i radio yng Nghymru, 'Ar yr un donfedd', lle buom yn trafod yr heriau sy'n wynebu radio cymunedol a chefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Radio Cymunedol. Roedd ein hadroddiad yn dweud:

> Nodwyd y llwyddiant sylweddol yr honnwyd y cafodd cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben yn 2013-14. Credwn fod yr amser wedi dod i ailasesu'r penderfyniad hwn ac i ailgyflwyno cyllid penodol yn y maes hwn. Efallai y bydd synergeddau rhwng Radio Cymunedol, radio ysbyty a darparwyr newyddion hyperleol a gallai unrhyw ffynhonnell ariannu helpu i fynd i'r afael â phob maes.
>
> Hoffem hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o lwyddiant y gronfa flaenorol, fel bod sail dystiolaeth i lywio polisi'r dyfodol a datblygiad cronfa newydd.

Gwnaethoch dderbyn ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei gwerthusiad o'r gronfa Radio Cymunedol ac, gan dynnu ar unrhyw wersi a ddysgwyd, ystyried cyflwyno cronfa newydd, gan ystyried unrhyw synergeddau rhwng Radio Cymunedol a darparwyr newyddion hyperleol eraill.

Yn ôl ymateb i'r Pwyllgor:

> Cynhaliwyd adolygiad o Gronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru ac mae i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru[1]…
>
> Byddai angen inni hefyd ystyried blaenoriaethau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt wrth inni ystyried unrhyw gynigion i ailsefydlu'r Gronfa.

[1] https://gov.wales/docs/drah/publications/120724commradiofundreviewcy.pdf

> Byddai angen cyflwyno achos cryf i ddangos y byddai Cronfa newydd yn ychwanegu cryn werth o ran y radio cymunedol a fyddai ar gael ar draws Cymru, a hefyd  o ran yr effaith y byddai'n ei chael.

Rydym yn deall bod llawer o flaenoriaethau yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am arian yn eich portffolio. Fodd bynnag, mae Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno bod difrifoldeb effaith y penderfyniadau gan ddarparwyr radio masnachol mewn ymateb i'r canllawiau diwygiedig ynghylch deunydd lleol yn gofyn am gamau lliniaru gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn cytuno ein bod bellach yn adolygu argymhelliad ein hadroddiad i ddweud y dylai Llywodraeth Cymru **ail-greu cronfa ar unwaith i gefnogi Radio Cymunedol.**

Mae eich adolygiad chi o'r Gronfa Radio Cymunedol yn nodi gwerth yr arian hwn. Ymhlith nifer o gasgliadau cadarnhaol, roedd eich adolygiad yn datgan:

> Bu'r cymorth ariannol a gafwyd o dan y Gronfa Radio Cymunedol ar gyfer swyddi a chostau rhedeg yn fodd i'r gorsafoedd weithredu'n effeithiol a chanolbwyntio ar sicrhau'r manteision cymdeithasol i'w cymunedau sy'n ofynnol gan eu trwyddedau. Darparodd y swyddi a'r unigolion a recriwtiwyd i'w llenwi y sgiliau a'r arbenigedd allweddol i ddatblygu'r gorsafoedd a gwnaethant helpu'r gorsafoedd i gynhyrchu rhagor o incwm parhaus, er enghraifft, drwy werthu mwy o hysbysebion, hyfforddi gwirfoddolwyr a chreu cysylltiadau rhwng y gorsafoedd a'u cymunedau lleol.

A wnewch chi ymateb i'n hargymhelliad diwygiedig i ail-greu Cronfa Radio Cymunedol?

### Hysbysebion Llywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad, gwnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiliadau o ddefnyddio mwy ar y sector.

Fe wnaethoch chi dderbyn yr argymhelliad hwn a dweud wrthym:

> Mae asiantaethau [...] yn chwilio am ffyrdd eraill o ymwneud â'r sector radio cymunedol. Er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth am ymgyrch pa fo'n cael ei lansio a gofyn am gefnogaeth ar yr awyr – dyna a wnaed ar gyfer yr ymgyrch ddiweddar Magu plant. Rhowch amser iddo. Rydym yn cydnabod nad yw'r sector yn manteisio i'r eithaf ar ffrwd refeniw posibl.
>
> Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ei hadroddiad ei hun ar faint o gynulleidfa y mae'r sector yn ei chyrraedd er mwyn cadarnhau'r ffigurau. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ailanfon at asiantaethau ar restr

Llywodraeth Cymru, a bydd asiantaethau a staff cyfathrebu yn Llywodraeth Cymru yn cael eu hatgoffa am yr angen i ystyried ffyrdd o feithrin cysylltiadau â gorsafoedd radio cymunedol, fel y bo'n briodol, er mwyn gweithio ar ymgyrchoedd. Mae hyn yn cynnwys meddwl mewn ffordd fwy creadigol am sut y gall y sector radio cymunedol fod yn gysylltiedig â gwaith ymgyrchu y telir amdano.

Diolch i chi am nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog yr asiantaethau ar ei rhestr ddyletswyddau i wneud gwell defnydd o radio cymunedol. Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiant y dull hwn.

A wnewch chi roi rhestr i'r Pwyllgor o'r asiantaethau sydd wedi ymgysylltu â gorsafoedd radio cymunedol, disgrifiad o'u hymgysylltiad a gwerth yr hysbysebu sydd wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf?

Gwn y byddwch yn cytuno y dylid cymryd camau brys i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru. Mae eich adolygiad o'r Gronfa Radio Cymunedol, eich ymateb ysgrifenedig i'n hymchwiliad a'ch tystiolaeth i ni yn ein cyfarfod ar 26 Ebrill 2018 oll yn cefnogi'r casgliadau y daethom iddynt o ran gwerth Radio Cymunedol i bobl Cymru.

Gofynnwn i chi ymateb i'r tri chwestiwn a nodir yn y llythyr hwn erbyn **5 Ebrill** inni allu hysbysu ein rhanddeiliaid sy'n bryderus iawn am golli swyddi fel sydd ar fin digwydd yn y sector hwn.

Yn gywir,

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/DET/0364/19

Bethan Sayed AC
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
**Bethan.Sayed@assembly.wales**

8 Ebrill 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 15 Mawrth mewn perthynas â gwasanaethau radio yng Nghymru. Byddaf yn ymateb i'r tri chwestiwn penodol yn eich llythyr.

***A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw sylwadau yr ydych wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU neu Ofcom ers cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gynnwys lleol?***

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Ofcom yn benodol ar y mater hwn ers i'r newidiadau i'w ganllawiau lleol gael eu cyhoeddi yn 2018. Fodd bynnag, roedd Ofcom eisoes yn gwbl ymwybodol o safbwynt Llywodraeth Cymru, sef nad oeddem am weld y rheolau lleol presennol ar radio masnachol yn cael eu llacio ymhellach na'u dileu. Amlygwyd hyn yn ein tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i wasanaethau radio yng Nghymru, y cyfeiriwyd ati yn ein hymateb i gynllun blynyddol drafft Ofcom ym mis Chwefror eleni.

Ar 13 Mawrth, mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddigwyddiad Ofcom ar ddyfodol radio yng Nghymru ac ailddatganwyd ein safbwynt. Ar 19 Mawrth, cefais gyfarfod â Chyfarwyddwr Ofcom i Gymru ac, unwaith eto, gwnaed ein safbwynt yn glir ar y mater hwn.

Mae Ofcom Cymru wedi nodi mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru – ac yn ei Gynllun Blynyddol ar gyfer 2019 a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth – nad oes ganddo'r pwerau priodol ar hyn o bryd i ddiogelu cynnwys ieithyddol drwy ymgorffori rhwymedigaethau rhaglennu sy'n benodol i iaith mewn trwyddedau ar gyfer gorsafoedd teledu, masnachol a radio cymunedol lleol. Mae hwn yn fater i Lywodraeth y DU ei ystyried, a byddem yn ei hannog i wneud hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***A wnewch chi ymateb i'n hargymhelliad diwygiedig i ail-greu Cronfa Radio Cymunedol?***

Rydym, wrth reswm, yn deall yr heriau sy'n wynebu'r sector radio cymunedol yng Nghymru. Rydym yn nodi'r sylwadau i'r Pwyllgor gan rai gorsafoedd radio cymunedol sy'n cyfeirio at bwysigrwydd Cronfa Radio Cymunedol Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch bod y rhan fwyaf o orsafoedd a gafodd gymorth yn flaenorol wedi parhau i ddarlledu. Fodd bynnag, nid yw ein safbwynt mewn perthynas ag ailgyflwyno'r Gronfa wedi newid a byddai angen ystyried hyn yn unol â blaenoriaethau eraill y mae angen rhoi sylw iddynt. Byddai angen gwneud achos cryf i ddangos y byddai Cronfa newydd yn ychwanegu gwerth sylweddol at argaeledd ac effaith radio cymunedol ledled Cymru, yn enwedig tra bod gorsafoedd yng Nghymru eisoes yn gallu gwneud cais am arian gan y Gronfa Radio Cymunedol a weithredir gan Ofcom. Cadarnhaodd swyddogion Ofcom Cymru yn ystod ein cyfarfod diweddar ei fod eisoes yn hyrwyddo argaeledd ei gronfa i'r gorsafoedd radio cymunedol perthnasol a bydd yn parhau i wneud hynny.

***A wnewch chi roi rhestr i'r Pwyllgor o'r asiantaethau sydd wedi ymgysylltu â gorsafoedd radio cymunedol, disgrifiad o'u hymgysylltiad a gwerth yr hysbysebu sydd wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru dros y deuddeg mis diwethaf?***

Mae'r asiantaethau marchnata a chyfathrebu ar Fframwaith Llywodraeth Cymru yn tendro i wneud gwaith ymgyrchoedd ym mhob un o bortffolios y Llywodraeth. Nid oes cofnod canolog ar gael ar gyfer cyfanswm y gwaith sy'n cynnwys gorsafoedd radio cymunedol ym mhob adran bolisi. Fodd bynnag, mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys ymgyrch Twf Swyddi Cymru ar Radio Caerdydd, ac ymgyrch Band Cyflym Iawn ar BGfm a GTFM.

Bwriedir defnyddio gorsafoedd radio cymunedol mewn perthynas ag ymgyrchoedd Rhianta Cadarnhaol a Thasglu'r Cymoedd, a nodwyd eu bod yn llwyfan hysbysebu yn y briff a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ymgyrchoedd Isafswm Pris Alcohol a Rhoi Organau.

Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd, rydym eisoes wedi ysgrifennu at asiantaethau'n eu hatgoffa i gynnwys gorsafoedd radio cymunedol wrth ddatblygu cynlluniau cyfryngau ar gyfer pob un o ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru. Gall hyn naill ai fod fel rhan o'r cymysgedd hysbysebu neu drwy gynnwys gorsafoedd mewn modd addas a chreadigol, p'un bynnag yr ystyrir y bydd yn ymgysylltu orau â chynulleidfaoedd.

At hynny, o hyn ymlaen, gofynnir i asiantaethau ddarparu manylion o'r ymgysylltu ynghyd â gwerth hysbysebu i reolwr y Fframwaith. Bydd hyn ein galluogi, yn y dyfodol, i ddarparu manylion a gwerthoedd, yn unol â'ch cais.

Rydym hefyd yn y broses o drefnu cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru, ein prynwyr cyfryngau a'r gorsafoedd cymunedol er mwyn datblygu cydberthnasau a chyfleoedd ymhellach.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism